# RECORDERS' NEWSLETTER

**Cylchlythyr Cofnodwyr 37 (Ionawr 2018)**

Croeso i Gylchlythyr Cofnodwyr 37. Hoffwn ymddiheuro am yr oedi o ran ei gyhoeddi. Gallaf ond diolch i bawb am eu cofnodion a'u hamynedd mawr a gofyn i chi hefyd barhau i anfon eich syniadau a'ch cofnodion, maent yn werthfawr iawn.

## Tywydd

Ers blynyddoedd lawer, cofnodion y tywydd yw un o'r elfennau mwyaf poblogaidd o'r Cylchlythyr. Ers blynyddoedd, mae Marcus Middlehurst wedi cynnal cofnod tywydd rhagorol ar gyfer ardal Treherbert ac mae ei gofnodion trylwyr a'i arsylwadau hyfryd ar y tywydd wedi helpu i fywiogi a diffinio'r Cylchlythyr. Roeddem yn drist iawn felly, i glywed gan ei wraig, Maris, am farwolaeth Marcus ym mis Rhagfyr. Bu Marcus a Maris yn hyrwyddwyr materion amgylcheddol a chymdeithasol yn y Rhondda gydag egni, ymrwymiad a hiwmor. Roedd Marcus yn un o hoelion wyth Cylchlythyr Cofnodwyr a byddwn yn gweld ei eisiau'n fawr. Anfonodd Maris y canlynol ar e-bost ac mae wedi rhoi caniatâd i ni ei ailadrodd fel teyrnged gariadus ac addas i Marcus;

'*Collodd Marcus ei frwydr 15 mlynedd gyda Myeloma ar 17 Rhagfyr. Rwyf wedi colli fy enaid hoff cytûn a'm ffrind gorau. Ond gan mai Marcus ydoedd, roedd yn rhaid i mi addo bwydo'r adar bob bore, cymryd y mesuriadau ac anfon y canlyniadau atoch chi. Roedd ef wedi cwblhau mis Hydref a Thachwedd ond oherwydd ei gyfnodau yn yr Ysbyty, ni lwyddodd i anfon y canlyniadau. Rwyf wedi cwblhau'r flwyddyn a sefydlu 2018 er mwyn i mi allu parhau â'i waith da.*

*Daeth i'r Rhondda ym 1984, gan ddewis yr ardal hon am iddo syrthio mewn cariad a'i harddwch naturiol a'i bywyd gwyllt eithriadol. Roedd yn angerddol am ddiogelu'r amgylchedd fel y gwyddoch, oherwydd ein hymddangosiadau niferus gerbron y Pwyllgor Cynllunio a'r gwaith a wnaethom wrth wrthwynebu i'r LDP. Roedd yn cael pleser mawr ym mhethau syml bywyd, â'i lygaid yn pefrio, gwên ddireidus a chwerthiniad heintus ac roedd ganddo amser i bobl eraill oedd, yn ei farn ef, angen ffrind i'w helpu i ymdopi â'u problemau. Roedd yn ysbrydoliaeth i ddioddefwyr eraill Canser a dywedodd llawer o bobl wrthyf iddo eu helpu'n fwy na'r holl Broffesiwn Meddygol, i ddod i delerau â'r clefydau ofnadwy hyn a brwydro yn eu herbyn.*

*Mae wedi cael ei ddisgrifio gan lawer fel Gŵr Bonheddig yng ngwir ystyr y gair, a bydd ei deulu a'r Gymuned yn gyffredinol yn gweld ei eisiau.'*

Er gwaethaf salwch yn ystod 2017, cadwodd Marcus (gyda chymorth Maris) gofnod tywydd dyddiol ar gyfer Treherbert. Roedd yn dangos blwyddyn a oedd, ar wahân i Ebrill, (a fu'n eithriadol o sych) yn hynod gyfartal o ran glaw, gyda diwrnodau gwlyb byth ymhell i ffwrdd, ond heb lawer o 'eithafion' eithafol. Dyma grynodeb;

**Ionawr** cyfanswm y glaw 160mm (yr ail fis sychaf yn 2017) a gafodd, er iddo gael 15 diwrnod o wlybaniaeth mesuradwy, uchafswm o 23 mm yn unig.
**Chwefror** cyfanswm y glaw 273 mm, gydag 16 o ddiwrnodau 'gwlyb' ac uchafswm o 60 mm ar y $25^{ain}$
**Mawrth** cyfanswm y glaw 347 mm, 21 o ddiwrnodau 'gwlyb' a 50mm ar $19^{eg}$
**Ebrill**, ac yng ngeiriau Marcus ei hun '*Dyma mwy na thebyg y siart glaw mwyaf unigryw y byddwch yn ei weld erioed! Mae'n beth rhyfedd i'w ddweud ar ôl gweld ffrydiau o law niwlog mân yn sgubo i lawr (ar draws) ochr mynydd Tynewydd, ond cofnodwyd SERO yn y mesurydd dŵr! Rwyf yn aml wedi mynd â'r ci am dro a dod yn ôl yn llaith ond eto mae'r mesurydd yn nodi dim glaw. Ond dyna fel y mae hi! Felly am Ebrill cyfan dim ond 3 diwrnod o law go iawn sydd gennym, CYFANSWM O 24mm, uchaf 12mm ar y 30ain - mae'n rhaid bod hyn yn record!'* Gan edrych trwy gyfanswm dyddiol Marcus mae'n gwbl anhygoel gweld, rhwng 3 Ebrill a 30 Ebrill mai dim ond 2mm o wlybaniaeth mesuradwy a gafwyd. O ystyried mai Tynewydd, Treherbert yw ardal wlypaf RhCT, mae'n dangos pa mor sych y mae'n rhaid bod gweddill y Fwrdeistref Sirol wedi bod.
**Mai** cafwyd cyfanswm o 162 mm o law, gyda 10 diwrnod cyntaf Mai yn cael 1mm o law yn unig, a thrwy hyn yn ymestyn y gwanwyn sych. Yn y diwedd, cafwyd 14 diwrnod o wlybaniaeth ysgafn yn bennaf yn unig gyda hanner cyfanswm mis Mai yn dod ar y $15^{fed}$.
**Mehefin**, gyda 274mm o law, ym Mehefin dychwelwyd at ein tywydd ansefydlog arferol yn yr haf, gyda 13 diwrnod 'gwlyb' ac uchafswm o 92 mm ar y $5^{ed}$ (oedd yn golygu mai 5 Mehefin oedd diwrnod gwlypa'r flwyddyn)
**Gorffennaf** cyfanswm o 234 mm o law, 17 o 'ddiwrnodau gwlyb' oedd yn golygu bod ail hanner Gorffennaf yn arbennig o laith gydag uchafswm o 47 mm ar yr $28^{ain}$.
**Awst,** ychydig yn sychach na'r misoedd Awst mwyaf diweddar gyda chyfanswm o 200 o law ac uchafswm o 35 mm ar yr $16^{eg}$.
**Medi** ni chafwyd ha bach Mihangel ac yn wir gosododd y tywydd y drefn ar gyfer hydref a gaeaf cynnar llaith yn bennaf. Cafwyd 348 mm o law, gyda 19 diwrnod 'gwlyb a 43 mm ar y $12^{fed}$.
**Hydref** cafwyd 337 mm a 17 o rai 'gwlyb' gyda 54 mm ar y $24^{ain}$.
**Tachwedd** cafodd Tynewydd 326 mm o wlybaniaeth, gyda'r 21 diwrnod 'gwlyb' yn rhoi uchafswm o 59 mm ar yr $21^{ain}$.
**Rhagfyr** mis gwlypa'r flwyddyn, er na wnaeth y 377 mm dorri unrhyw record, cafwyd 18 o ddiwrnodau 'gwlyb' a 68 mm ar y $7^{fed}$.

Rhoddodd hynny gyfanswm o 3062 mm o wlybaniaeth i fesurydd glaw Marcus a Maris yn 2017. Sut mae hynny'n cymharu â blynyddoedd blaenorol? Rwyf wedi edrych yn ôl dros negeseuon e-bost a chofnodion yr anfonodd Marcus ataf a;
**2011** 2996 mm
**2012** (Gorffennaf ac Awst ar goll) 3036.5 mm
**2013** 3138.5 mm
**2014** 3806.5 mm
**2015** 3518 mm
**2016** 3027.5 mm

Felly gellir cadarnhau bod 2017 yn llai gwlyb ac yn cyd-fynd â 2011 a 2016 fel blwyddyn sydd ymysg blynyddoedd ychydig yn sychach yn y cyfnod hwn. Fel y dangosodd Marcus yn barhaus, Treherbert yw un o'r mannau gwlypaf yn ne Cymru (de Prydain mewn gwirionedd) a bod amgylchedd gwlyb, llaith yn helpu i gefnogi'r amgylchedd unigryw yn y Rhondda Fawr, ei rhaeadrau, coetir yn llawn mwsogl a chen, sgydau a chorsydd yn frith o flodau gwyllt, corsydd migwyna'r Rhondda Fawr sydd yn llifo'n lân. Tirwedd hardd a chyfoethog y gwnaeth Marcus, yng ngeiriau Maris, '*gwympo mewn cariad â hi'*.

Sawl blwyddyn yn ôl, wrth gymharu cofnodion Treherbert Marcus â data Cwmbach Mark Evans, cefais fy synnu oherwydd y gwahaniaeth yn y glas rhwng y ddau le. Cynhelir y gwahaniaethau hynny, gyda hanner y glaw yn rhan Mark o Gwm Cynon o'i gymharu â phen uchaf y Rhondda, flwyddyn ar ôl blwyddyn. Felly i ddangos hynny, dyma grynodeb o gofnodion Cwmbach Mark;

**Ionawr** 93mm o law. Uchafswm tymheredd o 6.84 gradd C ar ei isaf yn -3.3 gradd gyda 14 noson â thymheredd islaw sero.
**Chwefror** 141 mm o law, ond mis mwynach nag Ionawr gydag uchafswm tymheredd o 14 gradd C ar yr 2[il] a dim ond gwerth un noson o rew.
**Mawrth** 173.6 mm o wlybaniaeth, ond uchafswm tymheredd o 16 gradd ar y 15[fed] gydag un noson yn unig o rew.
**Ebrill** yn sych gyda 21mm o law. Cafwyd uchafswm tymheredd o 19.4 gradd C ar y 9[fed], ond tair noson o rew, yr olaf yn -2.7 gradd oerllyd ar 27 Ebrill.
**Mai** cafwyd 86 mm o law a diwedd Mai hir a chynnes yn creu cyfnod byr o dywydd poeth ac uchafswm tymheredd o 25.7 gradd C ar y 26[ain].
**Mehefin** cafwyd 145 mm gyda diwrnod crasboeth o 30.9 gradd C ar yr 21[ain].
**Gorffennaf** cafwyd 140 mm o law gyda 25 gradd C ar y 18[fed].
**Awst** cafwyd 97 mm gyda 23.6 gradd ar yr 28[ain].
**Medi** cafwyd 165 mm gydag 20 gradd ar y 5[ed].
**Hydref** y cyfanswm oedd 113 mm gyda 18.5 gradd ar yr 8[fed].
**Tachwedd** cafwyd 133 mm a 13.3 gradd C ar yr 22[ain]
**Rhagfyr** cafwyd 215 mm o wlybaniaeth gydag uchafswm o 11.9 gradd ar y 7[fed], gydag 11 noson o rew ac uchafswm o -6.7 gradd C ar y 12[fed].

Gadawodd hynny i gyd Mark â chyfanswm ar gyfer 2017 o 1521 mm o law gyda 260 o ddiwrnodau o wlybaniaeth (223 gyda thros 0.2 mm) ac uchafswm tymheredd dyddiol ar gyfartaledd o 14.01 ac isafswm ar gyfartaledd o 6.31 gradd C. Mae'r cyfan yn arwydd hyfryd o hinsawdd forwrol. Yn y gwanwyn, amlygodd Paul Marshman hefyd Ebrill sych iawn yn Llwynypia, gyda 0.9 modfedd yn unig yn ystod y mis (sydd, rwy'n credu, tua 23 mm), fodd bynnag, torrodd y tywydd ar ddechrau Mehefin, a chafodd Paul 60 mm o law ar y 5[ed] a 30 mm ar yr 8[fed], ond erbyn Mehefin 18 a 19, cofnododd Paul wres o 33 gradd C yn ei ardd yn Llwynypia.

## Adar

Ym mis Chwefror 2017, anfonodd Stuart Jones y canlynol, *'meddwl y byddai gennych ddiddordeb mewn* ***hebog ieir*** *benywaidd a welwyd i'r dwyrain o gopa Mynydd Y Glyn ddydd Mawrth diwethaf. Ychydig i lawr o'r pwynt trionglu gwelwyd un* ***cornicyll*** *hefyd ymysg haid o ryw 20 o* ***gwtiaid aur****. Roedd hefyd yn braf gweld niferoedd da o'r 'adar mwy cyffredin' ar y ffordd i fyny o'r Graig, gyda* ***chochiaid y***

***berllan*** *yng nghoed Gelliwion a grŵp o 20 o* ***fronfreithod*** *o leiaf yn bwydo yn y caeau lle gwasgarwyd tail yn ddiweddar.* Mae hebog yr ieir yn adar gwych ac fel ***tylluanod clustiog***, maent yn adar i edrych allan amdanynt ar daith gerdded yn yr ucheldir yn ystod y gaeaf. Roedd hefyd yn dda clywed bod yr heidiaid o gwtiaid aur yn dal i dreulio'r gaeaf ar y bryniau rhwng Cymoedd Trelái a'r Rhondda, mae'n ymddangos fel man traddodiadol i dreulio'r gaeaf i'r perthynas agos hwn i'r cornicyll. Mae'n galonogol gwybod eu bod yn dal i'w ddefnyddio.

Yng nghanol mis Ionawr, yn ystod ymweliad safle eithafol o oer â Pharc Manwerthu Bro Morgannwg, Tonysguboriau (gydag eira'n disgyn) cefais fy synnu gan ***las y dorlan*** a wibiodd heibio i mi ac i lawr ffos ddraenio gul yn llawn trolis. Ychydig wythnosau'n ddiweddarach, wrth i mi yrru i fyny i Donteg ar hyd ffordd goediog y tu hwnt i Brifysgol De Cymru, cefais fy synnu yn yr un modd i weld glas y dorlan yn hedfan i fyny'r bryn ar hyd llinell wen ganolog y ffordd. Aeth yn ei flaen am dros 100 metr, gyda fi y tu ôl iddo (yn mynd tua 20 milltir yr awr) cyn dod o hyd i fwlch yn y coed a phlymio i'r chwith ac i lawr i'r Afon Taf mwy na thebyg, islaw'r ffordd.

Mae David Harry yn cadw bwrdd adar gyda stoc dda arno sydd â'i fuddion ei hun. Ar ddiwedd Ionawr 2017, cofnododd David yr hyn yr oedd wedi ei gofnodi yn ddiweddar yn cynnwys *cochiaid y berllan*, ***llinos bengoch***, dau ***bila gwyrdd***, 23 ***beneurin*** (a ddisgrifiodd David fel adar sydd yn 'rheoli'r bwrdd adar), 15 ***asgell fraith***, a ***chnocell y cnau*** a 5 ***aderyn y to***, ond dim ond un ***llinos werdd*** (sydd yn dangos bod eu niferoedd wedi lleihau).

Dywedodd Mark Evans wrthyf am gofnod rhagorol o ***dylluan wen***, o Gwm Cynon, y mae'n rhaid i ni (am resymau amlwg) fod yn annelwig am ei lleoliad. Wrth i Mark archwilio hen chwarel, '*penderfynodd fynd i weld a oedd pelenni tylluan o hyd, mewn rhan o'r chwarel ymhellach ymlaen. Roeddwn i wedi canfod nifer ohonynt o dan goeden fach flwyddyn yn ôl ac er nad oedd tylluan yn bresennol, penderfynais ei bod yn goeden oedd yn cael ei defnyddio gan dylluan frech ar gyfer treulio bwyd a pheswch pelenni i fyny. Wrth gyrraedd y goeden, gan sganio am bresenoldeb tylluan i ddechrau, canfuais sawl pelen cymharol ddiweddar ac wrth i mi blygu i godi un, clywais adenydd ac edrychais i fyny a gweld tylluan wen yn hedfan o hollt ddofn yn wyneb y chwarel ac i mewn i goeden, lle'r arhosodd, tra 'mod i'n symud i ffwrdd yn gyflym er mwyn osgoi amharu arni ymhellach. Gan gymryd bod y pelenni a ganfuais yn yr un lle ym mis Ionawr neu Chwefror 2016 yn rhai tylluan wen yn hytrach na thylluan frech, ymddengys bod yr hollt yn cael ei defnyddio gan un aderyn o leiaf a phâr efallai.* Yn nwyrain Lloegr, mae'r dylluan wen yn aml yn nythu yng ngheudod mewn coed, ond yma yn ein hinsawdd morwrol llaith, mae'r dylluan wen yn dibynnu ar adeiladau.

Ar 7 Chwefror 2017, adroddodd Paul Marshman ar ddychweliad ***ehedyddion*** i bennau'r Gelli (arwydd cadarn o ddyfodiad y gwanwyn). Fodd bynnag, dangosodd ei ganfyddiad (ar yr un pryd) o'r ***gïach fach*** yn y Lan fod y gaeaf yn dal yn rheoli. Mae'r Gïach fach yn ymwelydd gaeaf, ac roedd yr un yma'n eistedd ar dir 'hesg' wedi rhewi nes i Paul bron sefyll arni. Gwelais arwydd arall o'r gwanwyn ar 8 Chwefror pan wyliais ***walch glas*** benywaidd uwch fy mhen yng Nghoed Brynna, Llanharan. Roedd yn dringo gyda churiadau adenydd araf mewn golygfa yr wyf wedi darllen amdani ond erioed wedi ei gweld. Ar ddechrau Mawrth, dywedodd Paul wrthyf am ***grëyr bach copog*** yr oedd wedi ei weld dau ddiwrnod yn olynol yn Llyn Glyncornel:

gwelodd Paul yr aderyn gyfanswm o bedair gwaith yn ystod y mis. Erbyn 15 Mawrth, roedd gennyf dystiolaeth bellach o'r gwanwyn gyda fy ***nryw felen*** (dau) gyntaf yn canu ym Mhontypridd. Ar 25 Mawrth, gwelodd Paul ***gynffonwen*** ar y bryniau uwchlaw'r Gelli, ac roedd ***cwtiar***, ***hwyaden wyllt***, ***Gwyddau Canada*** a ***mulfran*** ar Lyn Glyncornel, a arweiniodd at hwyaid gwyllt a chwtieir ym mis Ebrill. Ar 28 Mawrth, gwelais ***wennol y glennydd*** gynta'r flwyddyn ym Mhorth, gyda 10 ym Mhontypridd ar y diwrnod nesaf, gwelodd Jeff Williams nhw ym Mhorth hefyd gyda ***hwyaid danheddog*** a ***throchwr***. Clywodd Paul Marshman ei ***helygddriwod*** cyntaf yng Nghlyncornel ar 31 Mawrth ar yr un diwrnod ag y clywais ***benlöyn*** yng Nghoed yr Hendy a Choed Cefn Hendy, Pontyclun ac roedd yna ***wenoliaid y bondo*** yn grwnan o amgylch ffenestri 6ed llawr Tŷ Sardis ar 3 Ebrill. Ar 20 Ebrill, gwelais sawl cynffonwen ar ochrau'r bryn uwchlaw Parc Gwledig Cwm Dare a chlywais ***delor y gwair*** yn canu o hesg trwchus corsydd mawn yr ucheldir. Erbyn 24 Ebrill, roedd Paul yn cofnodi'r ***gwcw*** a ***thelor y coed*** cynta'r flwyddyn o Glyncornel, gyda ***throchwyr*** ifanc eisoes wedi eu sefydlu ar y Rhondda Fawr yn Ystrad. Nododd Paul hefyd ei fod yn gweld ***hwyaid danheddog*** yn aros yn hwyr i mewn i'r gwanwyn, a bod ***barcutiaid coch*** yn olygfa gyffredin dros Lwynypia (yn wir, 2017 oedd blwyddyn orau Paul hyd yn hyn am farcutiaid coch).

Ar 5 Mai, roedd ***gwenoliaid buan*** ym mhobman yn bwydo dros Bontypridd, gyda hyd at 100 o adar yn cwrso a rasio dros y dref. Fodd bynnag, roeddent i gyd neu'r rhan fwyaf, ond yn pasio heibio ac mae'r niferoedd bridio'n bryderus o isel. Fel rhan o waith Clwb Adar Morgannwg i atgyfnerthu poblogaethau gwenoliaid buan, arolygodd Alan Rosney'r boblogaeth nythu yn Heol Tyfica, Pontypridd a chofnodi 20 o wenoliaid buan a 4 neu 5 safle nyth pendant. Mae hyn yn cyd-fynd â'm harsylwadau yr ymddengys bod 10 o barau nythu o fewn adran fer o'r stryd honno (a rhai cyfagos). Mae Alan wedi rhoi taflenni mewn tai ar y stryd yn codi mater gwenoliaid buan ac yn cynnig helpu trigolion i warchod ac annog yr adar. Os oes gennych wenoliaid buan ar eich stryd, rhowch wybod i'r Clwb Adar (gallwn drosglwyddo'r wybodaeth ar eich cais).

Ym mis Gorffennaf, clywodd Paul Marshman ddau ***droellwr*** yn 'grwnan' yn o goedwig uwchben Gwarchodfa Natur Leol Glyncornel ac roedd ganddo olygfa ragorol o ehediad arddangos y gwryw. Cofnododd Alan Rosney fwy o droellwyr o Goedwig Llanwanno gyda thelor y gwaith hefyd yn bresennol. Ym mis Mehefin, gwelodd Ben Williams ***wyddwalch*** yn Ger y Bont Hirwaun, ac yn yr hydref, gwelais fy ngwyddwalch 100% sicr cyntaf ym Mharc Gwledig Cwm Dare (rwy'n gwybod ei fod yn warth cyfaddef ond mae wedi cymryd 25 mlynedd o fyw yn ne Cymru i weld gwyddwalch 100% sicr o'r diwedd), roedd yn fenywaidd, yn olygfa drawiadol oedd yn werth aros amdani.

Anfonodd Therese ac Eddie Charnock grynodeb mawr o adar yn eu gardd ym Meisgyn. Nodwyd bod aderyn y to, **llwydiaid y berth, cnocell y cnau**, coch y berllan, **y gnocell fraith fwyaf**, y fronfraith a'r dresglen ac **esgyll coch** i gyd yn ymweld â'u gardd y gaeaf diwethaf. Ym mis Chwefror gwelwyd arwyddion **troellau, y dryw melyn cribog** a'r penlöyn wnaeth ymweld â'r bwydwr ar y ddaear unwaith neu ddwy. Wrth i Ebrill gyrraedd cawsant niferoedd mawr o **beneurynod** (9), **robin** tiriogaethol a **philaod gwyrdd** yn defnyddio'r bwydwyr. Fodd bynnag, nodwyd nad ydym '*braidd byth yn gweld llinosod gwyrdd yn yr ardd bellach'.*

Mae Tony Swann unwaith eto wedi darparu ei gyfrifon rhagorol o fywyd adar yng Ngwarchodfa Natur Coed Brynna, Llanharan;

*'Cyfanswm y rhywogaethau adar a welwyd yn fisol*
*Ionawr – 39 : Chwefror - 38 : Mawrth – 40*
*2 Ionawr – ymweliad cyntaf Blwyddyn Newydd ac yn llawn disgwyliadau. Ni wnaeth 20 asgell goch, 2* ***gaseg y ddrycin*** *a grŵp bach o bilaod gwyrdd a* ***llinos bengoch*** *siomi.*
*Arweiniodd weddill Ionawr a'r rhan fwyaf o Chwefror at ymwelwyr rheolaidd arferol y gaeaf yn cynnwys y glaw parhaus.*
*24 Chwefror - ailganfuwyd y* ***telor aelfelyn*** *y mae ei blu yn mynd yn aflêr iawn yn arbennig y barrau adenydd sydd bellach yn wan iawn. Ni all y bwrw plu fod yn bell i ffwrdd cyn iddo ddiflannu, ond a fydd yn cyrraedd yn ôl i Siberia?*
*1 Mawrth – Gwelwyd* ***Ffesant*** *yn hedfan ar draws llinell rheilffordd i mewn i Goed Brynna.*
*16 Mawrth oedd fy mhili pala cyntaf,* ***adain garpiog*** *ac ehediad uchel* ***gwyddwalch*** *o'r de i'r gogledd.* ***Drywod melyn*** *cyntaf y gwanwyn yn galw, mae'r gwanwyn wedi cyrraedd!*
*19 Mawrth - yn ystod prynhawn gwlyb iawn, gwyliais gïach fach yn hedfan o'r Coed tuag at Lanilid - nas gwelwyd erioed o'r blaen yng Nghors Llanharan.*
*28 Mawrth – 2* ***wylan gefnddu*** *yn hedfan uwchben, roeddent ar lefel y coed gan fy ngalluogi i adnabod yr adenydd lletach a'r ehediad arafach. Nid yr hawsaf i'w gwahanu o'r* ***gwylanod cefnddu lleiaf*** *wrth hedfan yn uchel. Roeddwn wedi amau eu bod yn hedfan uwchben am eu bod yn gallu cael eu gweld ar lyn ger y stiwdios ffilm ar safle Llanilid sydd, ar wahân i rai caeau, mwy neu lai gyferbyn.*
*29 Mawrth – dychweliad cyntaf y penlöyn, gwryw â llais llawn.*

*Cyfanswm y rhywogaethau o adar a welwyd yn fisol*
*Ebrill – 38 : Mai - 37 : Mehefin – 36*
*4 Ebrill a gwelwyd a chlywyd yr helygddryw cyntaf i ddychwelyd.*
*8 Ebrill gwelwyd mulfran ifanc yn hedfan o'r gorllewin i'r dwyrain.*
*16 Ebrill ac o'r diwedd, llwyddais i weld 2 ŵydd Canada yn hedfan i mewn o'r DDd tuag at Lanilid. Roeddwn wedi eu clywed ddwywaith yn flaenorol ond wedi methu eu gweld drwy'r coed. Mae teloriaid wedi dychwelyd o ran niferoedd a rhywogaethau. Heddiw, llwyddais i weld telor yr ardd cyntaf ac yn fwy o syndod, 1* ***llwydfron fach*** *ar yr ochr ogleddol a'r olygfa gyntaf o* ***wennol*** *ar y safle.*
*Dechreuodd mis Mai yn dda gyda sawl cyntaf ar gyfer y flwyddyn.* ***Gwennol y glennydd*** *ar y 3ydd, gwennol fuan ar y 5ed ac ydfran ar y 7fed. Ar y 15fed gwelwyd ehediad nos o dylluanod brech benywaidd yn galw. 3ydd o Fehefin gwelwyd cnocell werdd yn hedfan o'r de i'r gogledd ac roedd hyn yn arwydd o ddiwedd rhywogaethau newydd ar gyfer y chwarter. Erbyn diwedd y mis, roedd gweithgaredd yr adar yn dechrau lleihau a gwelwyd y* ***piod digynffon*** *a'r* ***jac-do*** *yn bwrw'u plu.*
*Roedd y 6 mis cyntaf wedi creu 60 o rywogaethau gwahanol ac rwyf bellach yn pendroni pa ychwanegiadau pellach fydd yn cael eu gwneud yn y 6 mis nesaf yng Nghors Llanharan a Choed Brynna.*

*Cyfanswm y rhywogaethau o adar a welwyd*
*Gorffennaf – 32 : Awst - 34 : Medi – 35*
*Dechreuodd Gorffennaf gyda thawelwch nodedig yn y coed wrth i'r adar ddod yn fwy dirgel wrth iddynt ddechrau bwrw'u plu.*

*12 Gorffennaf – golygfa anarferol yn yr haf o un **siglen lwyd**, sydd fel arfer yn breswylydd gaeaf.*
*10 Awst – Siglennod llwyd yn dal yn bresennol a'r grŵp cyntaf ar ôl magu o'r titwod.*
*20 Awst - roedd y **gwybedog mannog** yn ganfyddiad da. Roedd gan haid fawr o golfanod oedd yn bwydo ar dderi yr aelodau arferol o deulu'r titwod a phenlöynnod a drywod melyn. Golygfa hyfryd oedd **coch y berllan** ddigoes mewn grŵp teuluol.*
*28 Awst – ehediad o **gudyllod coch** sy'n oedolion a rhai bach swnllyd dros ben Llanilid.*
*31 Awst – **Cynffonwen y gogledd**, a wyliwyd i ddechrau o'r ardd gefn, yn gorffwys ar do tŷ am ryw 30 munud cyn hedfan i'r de dros Goed Brynna. Ychwanegiad arall i restr Brynna – maent yn Llanilid yn aml yn ystod ymfudiad y gwanwyn a'r hydref ac mae rhai yn aros ar y ffordd las drwy'r haf, ond nid wyf byth wedi gallu gweld un dros y safle yn flaenorol.*
*1 Medi – Gwennol fuan yn hedfan uwchben – mae'n rhaid mai dyma'r un olaf y byddaf yn ei gweld yn y DU cyn y gwanwyn nesaf!*
*Parhaodd fis Medi'n gwbl ddi-achlysur hyd at y 25ain pan nodwyd glas y dorlan i ddechrau yn hedfan o dde Ewenni Fach drwy ystâd o dai tuag at Lanilid. Y tro diwethaf i mi weld y rhywogaeth hon yn yr ardal oedd dechrau 2002. Yn fuan wedi hynny, gwelwyd aderyn y flwyddyn yn fyr iawn. Troellodd **telor rhesog** drwy'r hen lwybr BMX, yn syth i'r de ar draws y llinell rheilffordd o'r warchodfa ac yna diflannu i'r gorllewin i mewn i ardal goediog. Er gwaethaf chwilio am amser hir lle'r oedd wedi hedfan, ni ellid dod o hyd iddo. Roedd yn fawr am delor, yn llwyd ac yn drawiadol. Yn nes ymlaen, gwelwyd 5 asgell goch ar ymyl gogleddol y safle'.*

*Cyfanswm nifer y rhywogaethau o adar a welwyd yn fisol*
*Hydref – 28 : Tachwedd - 35 : Rhagfyr – 40*
*15 Hyd oedd fy ymweliad cyntaf o'r mis ac roedd yr adar yn brin iawn. Yr unig 2 rywogaeth oedd yn werth eu nodi oedd 3 **colomen wyllt** a chnocell werdd.*
*Roedd y rhywogaethau a gofnodwyd lawer is na blynyddoedd blaenorol a gallaf ond meddwl bod hyn yn ymwneud â'r tywydd.*
*12 Tach a chynhyrchodd y tywydd stormus **wylan benddu** uwchben yn hedfan tua'r gorllewin – y gyntaf a welwyd y flwyddyn hon.*
*13 Tachwedd a rhew caled dros nos. Roedd y coed yn fyw gyda 27 o rywogaethau wedi eu cofnodi mewn 3 ½ awr. Roedd niferoedd y drywod melyn cribog yn uchel iawn ac roedd 2 haid fawr o ditwod yn cynnwys dringwyr bach yn crwydro yn yr ardaloedd mwy cynhyrchiol. Roedd 2 fwncath yn y coed yn edrych dros y rhandiroedd yn gobeithio bod cyw iâr ar y fwydlen!*
*25 Tachwedd cafwyd dychweliad cyntaf telor y gors dros y gaeaf.*
*28 Tachwedd, amser da i ymweld gyda 31 o rywogaethau'n cael eu cofnodi, dim ond yr ail dro i'r nifer yma gael eu gweld ar ymweliad. Yr uchafbwynt oedd cnocell werdd wrywaidd yn gorfod mynd i'r coed i chwilio am fwyd am fod morgrug yn brin yr adeg yma o'r flwyddyn. Roedd adrannau o'r pren yn fyw am fod mwy o fwyd ar gael yma na'r caeau cyfagos. Mae'r coetir yn gymharol ifanc ac felly mae ganddo amrywiaeth o goed a llwyni yn cynnig bwyd a digonedd o bryfed o'i gymharu â choetir wedi ei sefydlu sydd ag amrywiaeth mwy cyfyngedig.*
*1 Rhagfyr ac mae'r tywydd oer, sych yn parhau. Roedd pâr o gnocellau brith yn cwrso'i gilydd o amgylch y coed yn gyfeillgar, yr arwydd cyntaf o baru'r gaeaf hwn.*
*12 Rhagfyr, mis oer iawn ac yn rhyfedd iawn, gwelwyd **gwylan lwyd** am 0800 yn hedfan i'r gogledd ddwyrain.*

*19 Rhagfyr – ceisiodd 2* ***ydfran*** *lanio ar goeden gyda rhai brain tyddyn ond cawsant eu gyrru i ffwrdd gan y brain yn syth. Mae'n rhaid mai dyma'r math anghywir o gefnder!*
*26 Rhagfyr - ar ôl ychydig ddiwrnodau o law, roedd yn syndod gweld cymaint o rywogaethau ar hyd y lle - mae'n rhaid bod y grwpiau o esgyll coch wedi dod i gyfanswm o bron 100 mewn 3 grŵp gyda 4 caseg y ddrycin. Ychydig iawn oedd yn bwydo ar y ddaear a'r unig aeron sydd ar ôl bellach yw iorwg caled iawn.*

*Daeth y flwyddyn i ben gyda 67 o rywogaethau wedi eu nodi ac rwyf wedi cyrraedd 95 o rywogaethau mewn 18 mlynedd o gofnodi ar gyfer y safle hwn.* Ymysg y gyfres honno o gofnodion rhagorol, mae telor rhesog Tony yn ganfyddiad gwych. Telor yw hwn sydd yn magu yn Nwyrain Ewrop ac mae'n dangos yr hyn all ymddangos yn ystod cyfnod mudo. Cafodd Ben Williams eiliad mudol ragorol arall ar 18 Gorffennaf pan e-bostiodd '*Es i draw i Ffordd Osgoi Pentre'r Eglwys y bore 'ma a cherdded o gwmpas. Canfuais fwy o ffromlys yn tyfu ger y fynedfa i'r ail gae a tra'n tynnu hwnnw, gwelais aderyn oedd ychydig yn frown cochlyd gyda blaen llwyd yn hedfan allan o'r gwrych o'm blaen. Glaniodd mewn coeden a chefais olwg da arno ond hedfanodd i ffwrdd cyn i mi allu ei ganfod yn y binos. Rwy'n siŵr mai* ***eos*** *ydoedd ond nid wyf erioed wedi gweld un yn yr ardal hon o'r blaen ac nid wyf yn gwybod a ydym yn eu gweld yma. Rwyf wedi eu gweld yn Sbaen ond nid ym Mhrydain a gwn ein bod yn eu gweld yn ne Lloegr, ond De Cymru?'* Mae eosiaid yn lleihau ym mhobman ym Mhrydain, ac mae'r ystod wedi crebachu tuag at y de ddwyrain a hinsawdd mwy tramorol Suffolk a Chaint. Maent bob amser wedi bod yn brin yng Nghymru, ond am 30 mlynedd cyntaf yr ugeinfed ganrif, roeddent yn gymharol gyffredin ac yn eang ar draws Bro Morgannwg, ac yn cyrraedd rhannau deheuol yr hyn a elwir bellach yn RhCT. Efallai fod Llwyn yr Eos ar Gamlas Morgannwg ym Mhontypridd yn atgof o'r cyfnod byr hwnnw pan oedd eosiaid yn canu yn ein coetir. Ymwelydd mwy arferol (sydd yn dal i gael ei werthfawrogi) oedd ***bronrhuddyn*** gwrywaidd a welodd Ben a thynnu ei lun yn ei ardd yn Nhonteg ganol fis Tachwedd.

Er bod gwylanod buan Pontypridd yn ymadael am y de erbyn 8 Gorffennaf, gwelodd Paul Marshman a Phil Bristow wylanod buan yn aros ac yn pasio heibio ar ddiwedd mis Medi. Roedd yn anarferol iawn ac yn hwyr yn y flwyddyn ar gyfer gwylanod buan, gyda Paul yn gweld ei aderyn olaf ar 14 Medi (roedd wedi gweld adar bob dydd ym mis Medi). Ar 15 Medi, ni welais unrhyw wylanod buan ond gwelais haid fawr o wenoliaid y bondo a gwenoliaid yn mudo gyda channoedd o adar yn ffrydio i'r de i lawr Cwm Taf. Erbyn 17 Hydref, roedd Paul wedi cofnodi esgyll cochion yn y Rhondda ynghyd â chaseg y ddrycin ar y 18fed. Ar 27 Tachwedd, gwelais 5 hwyaden ddanheddog, glas y dorlan, trochwr, crëyr a mulfran gyda'i gilydd ar Afon Taf ym Mharc Pontypridd, a wnaeth gwylio adar yn hawdd. Ar ddiwedd mis Tachwedd, trosglwyddodd Phil Bristow gofnod gan Jacky Roberts o ***dylluan frech*** yn clwydo bob dydd yn y coed yn swyddfeydd y Cyngor ym Mronwydd, Porth. Mae'n debyg ei bod yn eistedd drwy'r dydd i bawb ei gweld, felly gwnaed gwylio adar yn haws byth. Gwelodd las y dorlan ar Lyn Cwm Clydach ar 5 Rhagfyr a nododd gastiau ***dringwr bach***, yn ymweld â'i ardd yn ddyddiol ac yn bwydo ar y llwybr, ar bostyn dillad metel ac yn diflannu o dan y gorchudd o iorwg dros foncyff onnen i chwilio am bry cop.

Anfonodd Mark Evans ei gyfrifon rhagorol o glwydydd Cigfrain ar gyfer clwydydd Cwm Cynon. Mae gan Mark set fedrus o gyfrifon misol yn dyddio'n ôl i 2000 ac maent wedi eu gosod yn erbyn y ffaith fod ei gofnodion yn 2017 yn cyd-fynd yn

bennaf â phatrwm uchafbwyntiau diwedd y gwanwyn/dechrau'r haf (gyda 401 ym Mehefin, 330 yng Ngorffennaf a 277 ym Mai) gan leihau i niferoedd llai yn y gaeaf. Fodd bynnag, roedd 2017 yn arferol gan fod uchafbwynt mawr o 412 o adar yn clwydo yn ystod cyfrif mis Tachwedd. Dyma'r cyfrif mwyaf o bell ffordd yn ystod mis Tachwedd. Mae sefyll yn uchel ar y bryniau yng Nghwm Cynon yn oriau mân y bore heb os yn ymdrech arwrol, ond mae iddo ei fanteision. Mae Mark yn dyst i brofiadau bywyd gwyllt na fydd y rhan fwyaf ohonom yn eu gweld. Rwyf bob amser yn darllen sylwadau Mark ar fywyd gwyllt sydd ynghlwm wrth ei gyfrifon misol gyda diddordeb, a dyma rai perlau;

5/2/17 '*hedfanodd dau **gyffylog** heibio yn ddigon agos i mi glywed yr aer yn rhuthro trwy blu'r cyntaf a'r cryndod cyflym wrth i'r ail gymryd camau osgoi i atal ei hun rhag taro yn fy erbyn'.*

6/3/17 '*gallwn glywed côr y bore....yn codi o'r cwm i ben y mynydd, dros ychydig funudau'*

2/4/17 '*gwelwyd tylluan wen yn chwarteru'r llechwedd'.*

3/5/17 '*tair cwcw'n galw a dau delor y gwair yn simsanu'.*

*3/6/17 'clywyd troellwr yn rhincian ymhellach i lawr'*

*6/8/17 'clywyd **wystryswr** yn galw unwaith uwchben am 5:00'.* Mae'r cofnod diwethaf hwn yn anhygoel ond mae'n dangos bod adar rhydiol glan y môr yn mudo ac yn symud dros dir sych. Rwy'n cofio eitem radio o Gadeirlan Derby (sydd mor bell o'r môr ag unrhyw le ym Mhrydain) lle canfu rywun weddillion adar rhydiol yn nyth hebog yr adeilad.

**Planhigion**
Yn y gwanwyn fe wnes i fonitro poblogaeth ***tegeirian y waun*** ym mynwent Cefn Parc, Llantrisant a chanfod 11 o blanhigion sy'n blodeuo. Felly rydym yn dal i aros i'r clwstwr hwn dyfu mewn maint. Mae rheolaeth y porfeydd cystal ag y gall fod (mae arddangosfeydd llawn blodau y ddôl wair yn rhagorol a cheir cannoedd o'r tegeirian dwysflodeuog).

Anfonodd David Barden restr ragorol o rywogaethau ataf ar gyfer ardaloedd o amgylch Ysbyty Brenhinol Morgannwg. Mae'n sicr yn ymddangos fel pe bai potensial botanegol enfawr ar dir yr ysbyty a'r cyffiniau. Addewais i David y byddwn yn ceisio dod o hyd i rywun i siarad â nhw am reoli gwair yn yr ysbyty. Rwyf wedi methu hyd yn hyn, ond byddaf yn rhoi cynnig arni eto. Yr hydref hwn, mae'r Cyngor wedi ymestyn ei raglen rheoli ymylon blodau gwyllt a phorfeydd y ddôl wair. Mae toriadau gwair diwedd yr haf yn llwyddiannus iawn ac yn annog fflora mwy amrywiol, a chynefin mwy diddorol. Mae cyflymder y canlyniadau wedi bod yn anhygoel a nododd David pa mor gyflym y mae'r ***pengaled Ffrainc*** wedi ymateb ar hyd ymylon yr A4119. Felly mae'n sicr yn werth ei wneud. Codi'r gwair sydd wedi ei dorri yw'r elfen allweddol. Er bod rheolaeth ymylon blodau gwyllt y Cyngor yn digwydd ar ymylon lletach (lle gall y peiriannau yr ydym yn eu defnyddio gael eu gweithredu) a phan fydd diogelwch y ffordd y caniatáu hynny, rwyf hefyd wedi bod yn arbrofi i weld beth all ddigwydd mewn ardaloedd llai. Felly, ar ddarn bach o ymyl ger fy nhŷ, rwyf

yn crafu'r gwair ar ôl i'r torwyr fynd ac yn rhoi'r gwair wedi ei dorri yn fy nhomen gompost. Rwy'n credu bod y cymdogion yn meddwl fy mod yn wallgof, er nad ydynt yn sylweddoli cymaint o embaras yr wyf yn ei deimlo wrth wneud hyn, ond rwy'n dweud wrth fy hun ei fod er lles gwyddoniaeth. Mae'r weithred honno o godi'r gwair sydd wedi ei dorri unwaith eto wedi bod yn galonogol. Mae wedi lleihau ireidd-dra'r gwair ac wedi cynyddu amrywiaeth y blodau gwyllt. Er bod yr ymyl hwn yn cael ei dorri 5 neu 6 gwaith y flwyddyn, mae cyfnodau yn dechrau datblygu rhwng torri lle mae'r blodau gwyllt yn blodeuo. Rydym wedi rheoli ein lawnt flaen fel hyn am ddegawd ac mae wedi mynd yn fach iawn erbyn hyn, ond mae'n ddôl fach sydd yn llawn blodau, ynghyd â ***thwmpathau morgrug melyn*** a rhestr o dros 50 o rywogaethau o wenyn. Mae'n anhygoel beth all ychydig grafu ei gyflawni ac rwyf yn ei argymell i unrhyw un sydd eisiau gwneud eu lawnt neu ymyl lleol sydd yn fwy cyfeillgar i flodau gwyllt.

Efallai fod rhai ohonoch wedi gweld y gwaith rheoli rhedyn sy'n cael ei wneud yng Nghymoedd y Rhondda fel rhan o brosiect Healthy Hillsides (prosiect partneriaeth yn cynnwys Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru, Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt, Heddlu De Cymru a chyngor RhCT). Mae'r gwaith rheoli yn cael ei wneud gan gontractwr arbenigol a'i cheffylau sydd wedi eu hyfforddi'n rhagorol. Y syniad yw lleihau'r cyflymder y mae'r rhedyn yn tyfu, er mwyn lleihau croniad rhedyn marw ac felly'r perygl o dân ac wrth wneud hynny, annog fflora a ffawna porfeydd. Ym mis Gorffennaf, anfonodd Emma Williams y sylw canlynol *'i'ch hysbysu bod y* ***clafrllys gwreidd-dan*** *wedi dychwelyd, neu o leiaf bod ymddangosiad gweledol ar Fynydd Penrhys! Roedd gorchudd da yn arfer bod yno (ac adran is o fynwent Penrhys a dirluniwyd 25 mlynedd yn ôl er mwyn paratoi'r plot), mae rheoli rhedyn ar ei ail ddiwrnod, ond mae buddion gwaith y llynedd yn weledol am nad achosodd tân losgi dwfn. Mae'n wych gweld y ceffylau wrth eu gwaith! Unrhyw debygolrwydd o ymestyn y cynllun peilot i ardaloedd eraill, byddai'n dda adfer rhywfaint o'n llwybrau mynydd'.* Yr ateb i'r cwestiynau hynny yw oes, y gobaith yw ymestyn y gwaith rheoli bryniau prosiect Healthy Hillsides. Y nod yn y pen draw yw cyflwyno pori ar gyfer gwarchod ar y safleoedd a thrwy wneud hynny, rhoi ffordd gynaliadwy o atal tanau gwair tra'n gwella bioamrywiaeth a chynyddu mynediad i lwybrau.

Mae'r tywydd 'anwadal' yn ein drysu ni i gyd ac roedd gan Paul ***fefus diffrwyth*** yn blodeuo yn ei ardd ar ddiwedd Rhagfyr ac ***eithin cyffredin*** a ***deheuol*** mewn blodau ar yr un pryd (sydd yn gwneud gwahaniaethu rhwng y ddwy rywogaeth yn fwy anodd byth).

**Ffwng**

Cynhaliodd Grŵp Ffwng Morgannwg gyfres ragorol o Gyrchoedd a Digwyddiadau yn 2017, yn cynnwys ymweliadau â'r Smilog, Coedwig Llantrisant a Phyllau Glo Coed Draws, Pontypridd. Gan ddechrau am 11AM ar 21 Ebrill 2018, bydd y grŵp yn cynnal AGM anffurfiol yn yr Ystafell Ddarganfod, yng Ngwarchodfa Natur Parc Slip, yr Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt. Bydd sgwrs gan Pat O'Reilly, awdur 'Fascinated by Fungi' a gwefan 'First Nature' ac ar ôl te a bisgedi, cyrch bach o'r Warchodfa. Os hoffech fynychu, cysylltwch â'r grŵp yn glamorganfungi@gmail.com.

Rydym wedi adrodd o'r blaen ar ganfyddiadau ffwng arloesol ein harbenigwyr lleol. Ychwanegodd Mark Evans at hyn, wrth iddo draethu ar ei chwiliad am ffwng pelen

ddu (rhywogaeth ***Daldinia***) yn chwareli Cwm Cynon,'*Rwy'n casglu sbesimenau Daldinia o eithin llosg. Am flynyddoedd, honnwyd mai **Daldinia vernicosa (fissa)** oedd pelen ddu yr eithin llosg**,** ond mae canfod rhywogaeth arall (**D. caldariorum**) ar eithin llosg rhywle yng ngorllewin Cymru'n golygu na ellir eu cofnodi'n ddibynadwy yn y cae bellach ac mae angen gwaith meicrosgop er mwyn bod yn siŵr. Casglais fy sbesimenau ac wrth dynnu a mesur y sborau, ymddengys nad D. vernicosa, ond D. caldariorum oedd hwnnw hefyd. Ar Borth y Rhwydwaith Bioamrywiaeth Cenedlaethol, mae'n dangos dau gofnod ar gyfer Cernyw/Dyfnaint a'r cofnod ar gyfer Sir Benfro. Wrth i amser fynd ymlaen ac wrth i fwy o sbesimenau gael eu harchwilio, bydd y Daldinia hwn, sydd yn brin, mwy na thebyg yn cael ei ddiystyru a'i dangofnodi i'r un graddau'.*

**Pili Palod a Gwyfynod**
Gwelodd Therese ac Eddie Charnnock ddwy ***fantell goch*** yn eu gardd ar ddechrau Ebrill. Mae'n debygol bod y rhain wedi gaeafgysgu fel oedolion. Er eu bod yn arfer rhoi cynnig arni, nid oedd y fantell goch byth yn goroesi ein gaeafau ni. Rydych bellach yn fwy tebygol o weld y fantell goch ym mis Mawrth na'r ***glöyn trilliw bach***. Mae pethau wedi newid. Gwelodd Jeff Williams niferoedd da o ***foneddiges y wig*** a'u planhigyn bwydo, sef ***blodyn y gog*** yng Nglyncornel ar ddiwedd Ebrill. Cafodd ***Brith y gors*** flwyddyn gymharol dda yn 2017. Canfu Ben Williams niferoedd da ym Mhentre'r Eglwys (gyda rhywfaint o'r ***brith perladeiniog bach***) a Thonyrefail a chanfuwyd y pili pala am y tro cyntaf ers blynyddoedd lawer yn y Waun, Tonyrefail gan Lucie Bromfield. Diolch i'w waith caled ef, Paul Denning, George Tordorff, Ben a Lucie, roedd Richard Smith yn gallu cofnodi 5 safle sydd wedi eu meddiannu yn ardal metaboblogaeth Cwm Elai yn 2017: newyddion calonogol. Gwelodd Paul Denning 4 o'r brith perladeiniog bach ar Gomin Llantrisant ar ddiwedd Mai.

Mae Ben yn cadw llygad manwl ar y ***brithribyn gwyn*** (WLH) wrth iddynt gludo eu hunain o amgylch brig y llwyfen lydanddail. Ar ddechrau Gorffennaf, nododd '*Es i allan y bore 'ma i edrych ar WLH. Roedd y coed ar hyd ochr ogleddol yr A470 yng Nghilfynydd mewn cyflwr da a gwelais 14 o bili palod ar daith gerdded o awr'*. Mae clefyd llwyfen yr Isalmaen yn dal i effeithio ar goed llwyfen, a bob haf rwyf yn gweld ***llwyfenni llydanddail*** sydd wedi ildio, felly Ben nododd iddo '*fynd i lawr i Ystâd Ddiwydiannol Trefforest i weld WLH ar fy hoff goeden ddangos. Gwelais bedwar unigolyn yn hedfan o gwmpas er gwaetha'r gwynt uchel. Yn drist iawn, mae gan y goeden glefyd llwyfen yr Isalmaen a bydd mwy na thebyg yn marw mewn ychydig flynyddoedd felly bydd yn rhaid i mi chwilio am safle arall'*.

Ar 20 Gorffennaf, nododd Paul Marsman ei fod wedi gwylio ***brith gwyrdd benywaidd*** yn dodwy wyau yn y rhedyn a'r fioledau wrth droed Tipiau Gelli. Soniodd Paul hefyd am y ffordd y mae ***modrwyog*** wedi cytrefu yn y Rhondda dros y blynyddoedd diweddar, gan gymharu hyn â'r ffordd y gwnaeth ***porthorion*** wladychu'r Cwm ryw 20 mlynedd yn ôl. Y Porthor bellach yw un o bili palod mwyaf cyffredin y Rhondda. Mae'r modrwyog yn sicr yn gwneud yn dda ar ein tiroedd llaith a nhw hefyd yw un o'r ychydig bili palod sydd yn ymddangos yn hapus i hedfan o gwmpas mewn tywydd gwlyb, felly byddent yn gwbl addas ar gyfer haf yn RhCT.

**Gwenyn a phethau eraill**
Fel rhan o'r gwaith hwn gyda RhCT, mae Liam Olds wedi bod yn edrych ar amrywiaeth o gynefinoedd. Un yw comin Y Graig, Llantrisant. Mae'r Graig yn llechwedd ragorol sy'n wynebu'r gorllewin. Tyfodd tref Llantrisant ar ei hysgwyddau a'i hochrau islaw, ac wedi hynny mae Tonysbuboriau wedi datblygu o'i gwreiddiau. Mae'r bryn yn un o ddau Gomin yn Llantrisant sydd yn berchen i Ymddiriedolaeth Tref Llantrisant, sydd, trwy weithio gyda'r Cyngor a phartneriaid eraill, yn raddol wedi adfer y gwaith o reoli pori. Felly er bod y Comin yn dal i edrych fel môr o redyn ar adegau, pan fyddwch yn mynd yn agos byddwch yn gweld fflora hynod o amrywiol sydd yn gyfoeth o rywogaethau. Ar draean o'r bryn mae'r 'rhedyn' bellach wedi ei deneuo'n sylweddol a phorfeydd agored sydd yno'n bennaf. Rydym wedi gwybod ers amser bod hwn yn safle pwysig ar gyfer pili palod a gwyfynod. Eleni, gwelodd Gorge Tordoff 8 brith perladeiniog bach ar y bryn (rhywogaeth sydd wedi ailwladychu ers i bori gael ei ailgyflwyno) yn ogystal â'r gwyfyn micro du a gwyn prin, ***Ananua funebris*** (sydd yn bwydo ar eirwialen y canfu Richard Smith ar y bryn gyntaf ddegawd neu fwy yn ôl) ac ail arbenigwr eirwialen bellach, y gwyfyn ***Eucosma aspidiscana*** (y dywed George wrthyf sydd yn gofnod cyntaf i'r sir). Felly, pan fentrodd Liam i'r Graig i chwilio am wenyn, roedd gennyf obaith y byddai'n dod o hyd i rywbeth diddorol. Ni chefais fy siomi. Y cyfrifon diweddaraf oedd dros 30 o rywogaethau a chadarnhaodd Liam fod Y Graig, yn wir, yn dda iawn am wenyn.

Mae Liam hefyd wedi bod yn edrych ar rai o'r ymylon blodau gwyllt y mae'r Cyngor yn eu rheoli fel porfeydd blodau gwyllt. Ymysg ystod eang o rywogaethau, canfuodd un oedd yn syndod: ***Pryf clustiog Lesne***. Mae'r pryf clustiog hwn nad yw'n cael ei gofnodi'n aml, fel arfer yn gysylltiedig â'r dringhedydd gwyllt ***Barf yr Hen Ŵr***. Canfu Liam y pryf clustiog mewn ymylon ym Meisgyn lle mae barf yr hen ŵr yn fantell ac yn hongian i lawr o'r coedwrych cyfagos. Mae bob amser yn braf cofnodi rhywogaeth â gofyniad penodol o ran cynefin, ac ychydig ymhellach ymlaen yn yr ymyl blodau gwyllt yma, canfuodd Liam hefyd y pryf trwyn hir ***Metatropis rufescens***, rhywogaeth coetir sydd yn byw ar ***lysiau'r swynwr***. Mae'r goedwig gerllaw'r ymyl yn llawn llysiau'r swynwr. Mae hyn i gyd yn dangos sut y gall rhywogaethau ddefnyddio cynefinoedd cysylltiedig, a pham y mae cynefinoedd brith yn aml yn cefnogi bioamrywiaeth gyfoethog.

Ar ddiwedd mai, roeddwn yn falch unwaith eto o ganfod y **gwenyn hirgorn** (***Eucera longicornis***) rhyfeddol yn bwydo ar ymylon gwair Meisgyn (mae'n arbennig o hoff o'r ***ytbysen felen)***. Rwy'n siŵr ei fod yn ymddangos rhywle arall yn RhCT, felly fis Mai neu fis Mehefin nesaf, chwiliwch am ddarn o'r ytbysen felen ac arhoswch am ychydig. Os gwelwch bryfyn tebyg i'r wenynen â theimlyddion anymarferol o hir byddwch wedi ei chanfod. Ni ellir ei chamgymryd am unrhyw beth arall. Fe wnes i hefyd ailgofnodi'r ***wenynen fach dywyll, Stellis phaeoptera*** yn fy ngardd. Wrth ei mwyhau i faint penodol mae'n edrych yn fach ac ychydig yn ddi-liw, ond o dan lens llaw mae'n brydferth iawn. Mae'n gwneud i mi feddwl beth arall sydd yno i'w ddarganfod. Ar ddiwedd Mehefin, roeddwn yn falch o weld fy hoff gacynen llus neu fynydd (***Bombus monticola***) ar y porfeydd llawn blodau ar safle adfer tir Cwmaman.

**Mamaliaid**
Fis Chwefror diwethaf, sefydlodd James Burton gamera nos ar Afon Cynon a chafodd ffilm ragorol o ***ddyfrgwn***, gyda'r hyn oedd yn edrych fel oedolyn benywaidd ar un achlysur a babi ar yr ail. Roedd Cyfoeth Naturiol Cymru wrth eu bodd yn cael

tystiolaeth o'r fath. Canfu James hefyd ***chwistlen ddŵr*** farw ar y llwybr cyhoeddus ar Gaeau Tirfounder: safle newydd i'r rhywogaeth. Gwelodd Ben Williams chwistlen ddŵr fyw yng Nghwm Cadlan (i'r gogledd o Benderyn) ac wrth ddychwelyd adref canfu un farw yn ei ardd yn Nhonteg yr oedd o'r farn bod '*un o'r cathod lleol wedi ei lladd. Roeddwn wedi bod yn dod o hyd i falwod dŵr wedi eu bwyta ar ochr y pwll ond wedi meddwl mai'r adar oedd ar fai. Mae chwistlod dŵr fel bysys, ni fyddwch yn gweld un am flynyddoedd ac yna bydd dau yn ymddangos ar yr un pryd*.' Canfu Ben hefyd nyth arall ***llygoden y cynhaeaf*** ar dir pori rhos ar hyd ffordd osgoi Pentre'r Eglwys. Roedd gan David Harry un neu ddau ystlum ***trwyn pedol lleiaf*** yn clwydo yn ei sied lo yn Llanharan yn ystod gaeaf 2016/17 ac roedd gan Therese ac Eddie Charnock ddau ***ddraenog*** (oedolyn a rhai ifanc) yn eu gardd ym Meisgyn yn ystod hydref 2016.

**Amffibiaid ac Ymlusgiaid**

Mae ychydig yn hwyr i'w gofnodi, ond roedd Dave Kerr oedd â chofnod cyntaf 2017 o silod ***broga*** gyda dau swp mewn pwll yn ei lecyn yn Rhondda ar 29 Ionawr, oedd yn well na fy nghofnod i o silod broga yn fy ngardd ym Meisgyn ar 31 Ionawr, gydag o leiaf 10 broga yn epilio erbyn 1 Chwefror. Yng Ngwarchodfa Natur Leol Glyncornel, gwelodd Paul Marshman ei epil cyntaf ar 5 Chwefror. Mae Paul hefyd yn nodi bod ***llyffantod*** yn croesi'r heol fynediad sydd yn arwain at Dŷ Glyncornel ac yn mynd tuag at y llyn. Yn anffodus, cafodd rhai eu gwasgu gan geir. Ar 6 Medi, canfuais lyffant a llyffantod bach ym mharthau gwyllt Parc Pontypridd.

Mae'n siŵr fy mod wedi colli cofnodion, ond cadwch eich arsylwadau, eich syniadau a'ch canfyddiadau i ddod. Bydd y Cylchlythyr nesaf yn cael ei gyhoeddi'n llawer cynt. Fel arfer, diolch yn fawr iawn i bawb.

Richard Wistow
CBS Rhondda Cynon Taf, Tŷ Sardis, Heol Sardis, Pontypridd, CF37 1DU
richard.j.wistow@rctcbc.gov.uk